Deall Dyneiddiaeth

# BETH YW DYNEIDDIAETH?

Mae dyneiddiaeth yn **agwedd neu fyd-olwg digrefydd** at fywyd y mae miliynau o bobl yn y DU a ledled y byd yn ei rannu. Mae dyneiddwyr yn credu ei bod hi'n bosibl byw bywyd da, hapus, ac ystyrlon heb fod angen crefydd.

Mae'r **Bod Dynol Hapus** yn symbol sy'n cael ei ddefnyddio gan fudiadau dyneiddiol ledled y byd. Mae'n cynrychioli dathlu bod yn ddynol – dathlu ein potensial am hapusrwydd a dathlu'r hyn y mae bodau dynol yn gallu'i wneud.

> "Mae pobl ddi-grefydd â rhagolwg dyneiddiol ar fywyd wedi bodoli ers dechrau dyniolaeth: wedi'i llywio gan dystiolaeth, wedi'i hysbrydoli gan empathi, a'i thrwytho â gobaith a rhyfeddod am y byd o'n cwmpas."
>
> **ANDREW COPSON,**
> Prif Weithredwr,
> Dyneiddwyr y DU



## PUM NODWEDD GYFFREDIN AGWEDD DDYNEIDDIOL TUAG AT FYWYD

**1** Mae dyneiddwyr yn credu bod tarddiad bodau dynol yn un naturiol. Gwnaethom **esblygu'n** naturiol fel popeth byw arall. Rydym wedi esblygu llawer o alluoedd ac, os ydym yn gwneud defnydd da ohonynt, mae gennym y potensial i fyw bywyd da a hapus.

**2** Mae dyneiddwyr yn credu bod y byd yn lle **naturiol** heb unrhyw elfen oruwchnaturiol (byddant yn anffyddwyr neu'n agnostigiaid). Maen nhw'n credu bod **gwyddoniaeth** a chwilio am **dystiolaeth** yn rhoi'r ffordd orau o ateb ein cwestiynau am y byd.

**3** Mae dyneiddwyr yn credu mai hwn yw'r **unig fywyd** sydd gennym felly mae angen i ni wneud y gorau ohono. I ddyneiddwyr, nid oes un ystyr 'sylfaenol' i fywyd. Yn hytrach, ein lle ni yw gwneud ein bywydau ein hunain yn **ystyrlon**. Maen nhw'n credu y dylem ni fod yn **rhydd** i benderfynu sut yr ydym yn byw (ar yr amod nad ydym yn achosi niwed i eraill), gan geisio **hapusrwydd** a chefnogi eraill i wneud yr un peth.

**4** Mae dyneiddwyr yn credu bod ein gallu moesol yn tarddu o'r tu mewn i fodau dynol a'n hesblygiad fel anifail cymdeithasol. Maen nhw'n credu, y dylem ni ddefnyddio rheswm ac **empathi**, wrth benderfynu sut i weithredu, gan ystyried canlyniadau ein gweithredoedd a'r effaith debygol ar bobl eraill ac anifeiliaid.

**5** Mae dyneiddwyr yn credu mai bodau dynol yn unig sy'n **gyfrifol** am wneud y byd yn lle gwell. Mae llawer ohonyn nhw'n ymgyrchu dros gydraddoldeb, hawliau dynol, a seciwlariaeth. Mae llawer ohonyn nhw'n dathlu'r cynnydd y mae'r ddynoliaeth wedi'i wneud, ond yn cydnabod y gwaith sydd eto i'w wneud.



> "Gall bod yn ddyneiddiwr fod yn heriol. Mae'n golygu, wrth benderfynu beth i'w gredu neu sut i weithredu, mae'n rhaid i chi feddwl drosoch chi eich hun. Mae'n rhaid i chi gymryd cyfrifoldeb am eich bywyd eich hun. Mae'n rhaid i chi dderbyn beth sydd i rai, yn ffeithiau anghyfforddus am wirionedd. Ond gall hefyd fod yn hynod werth chweil. Gall fod yn rhyddhaol a gwella bywyd."
>
> **SANDI TOKSVIG,** Noddwr, Dyneiddwyr y DU



 © HUMANISTS UK 2021

# DARGANFOD DYNEIDDIAETH

Nid yw llawer o ddyneiddwyr yn dysgu am ddyneiddiaeth ac yna'n penderfynu mabwysiadu agwedd ddyneiddiol at fywyd. Yn hytrach, maen nhw'n darganfod bod y label 'dyneiddiwr' yn un sy'n gweddu i'w hagwedd at fywyd eisoes.

> "Roeddwn i'n ddyneiddiwr heb yn wybod i mi am flynyddoedd lawer cyn i mi ddod o hyd i Gymdeithas Dyneiddwyr Prydain – pan wnes i, roedd hi fel dod o hyd i ryw fath o gartref. Dyma bobl ag amrywiaeth o safbwyntiau a oedd yn cyfateb i fy rhai i."
>
> **CLAIRE RAYNER,** Is-Lywydd, Dyneiddwyr y DU

# SEFYDLIADAU DYNEIDDIOL

Nid oes unrhyw rwymedigaeth i ddyneiddwyr gymryd rhan mewn unrhyw fath o ddyneiddiaeth wedi'i threfnu. Fodd bynnag, bydd llawer yn ymuno â grwpiau fel Humanists UK. Mae **Dyneiddwyr y DU** wedi bodoli ers 1896. Mae'n darparu gwasanaethau i gefnogi pobl ddigrefydd ac mae'n ymgyrchu ar faterion lle mae'n credu bod pobl ddigrefydd yn cael eu trin yn annheg.

Mae llawer o sefydliadau dyneiddiol eraill ledled y byd – yn Ewrop, Affrica, Asia, a'r Amerig. Maen nhw'n rhannu llawer o uchelgeisiau a nodau tebyg. Fodd bynnag, mae hawliau a rhyddid pobl ddigrefydd yn amrywio – mewn rhai gwledydd mae'n anghyfreithlon i fod yn ddigrefydd a gall rhywun gael ei garcharu neu hyd yn oed ei ladd. Mae **Dyneiddwyr Rhyngwladol** yn sefydliad sy'n gweithio i gefnogi dyneiddwyr a phobl eraill ddigrefydd ledled y byd.

Humanists INTERNATIONAL

> "Yr hyn y mae bod yn ddyneiddiwr yn ei olygu i mi yw sefyll gyda'r ddynoliaeth, sefyll wedi'ch ysbrydoli gan **hawliau dynol** a **gwerthoedd dynol**... Ffordd o feddwl a byw yw dyneiddiaeth sy'n pwysleisio **effaith** bodau dynol. Mae dyneiddiaeth yn pwysleisio'r ffaith ein bod ni, fodau dynol, yn gallu newid y byd."
>
> **LEO IGWE**, Cymdeithas Dyneiddwyr Nigeria




# SEREMONÏAU DYNEIDDIOL

Mae llawer o bobl ddigrefydd heddiw yn dewis cael seremoni ddyneiddiol. Gallai hon fod yn seremoni enwi (i ddathlu genedigaeth babi newydd), priodas, neu angladd. Mae'r seremonïau hyn, wedi'u cynnal gan **weinyddwyr seremonïau** dyneiddiol, ar y cyfan yn canolbwyntio ar ryddid y rhai sy'n cymryd rhan i ddewis sut maen nhw eisiau nodi'r achlysur a phwysigrwydd cariad a chefnogaeth pobl eraill yn ein bywydau.



# FAINT O DDYNEIDDWYR SYDD?

Mae tua 5% o boblogaeth y DU yn defnyddio'r label 'dyneiddiwr' i ddisgrifio'u hunain. Fodd bynnag, mae llawer mwy yn rhannu credoau a gwerthoedd dyneiddiol (mae arolygon yn awgrymu tua 20% o'r boblogaeth). Nid yw llawer wedi clywed am y gair 'dyneiddiwr', ac mae'n well gan eraill beidio ag uniaethu â label.



# HANES DYNEIDDIAETH

Mae syniadau dyneiddiol i'w gweld dros 2000 o flynyddoedd yn ôl yn yr Hen India, Tsieina, a Gwlad Groeg. Daeth syniadau dyneiddiol yn fwyfwy poblogaidd yn ystod cyfnod o'r enw yr Oleuedigaeth yn y 18 ganrif. Ni fyddai llawer o'r meddylwyr sydd wedi bod yn ddylanwadol ar ddyneiddiaeth wedi defnyddio'r gair 'dyneiddiwr' i ddisgrifio eu hunain. Fodd bynnag, mae eu hagwedd at ateb cwestiynau a gwneud dewisiadau heb yr angen am grefydd yn golygu bod llawer o ddyneiddwyr heddiw yn eu hystyried yn rhan o draddodiad y Dyneiddwyr.

 © HUMANISTS UK 2021